CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

324/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS4**

A.M. DYDD IAU, 14 Mehefin 2007

(1¼ awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn yn unig.

**Ni** ddylech ateb dau gwestiwn o'r un adran.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn yn unig.* **Ni** *ddylech ateb dau gwestiwn o'r un adran.*

## ADRAN 1

### Amcanion yn yr Amgylchedd Busnes

**1.** *(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, y gwahaniaeth rhwng sectorau cyhoeddus a phreifat yr economi. [8]

*(b)* Gwerthuswch y farn y dylai darparu nwyddau a gwasanaethau gael ei adael i'r sector preifat bob amser. [12]

**2.** *(a)* Eglurwch y ffactorau sy'n debygol o bennu *(determine)* y galw am betrol. [8]

*(b)* "Mae oligopolïau, fel cwmnïau olew, bob amser yn gweithredu yn erbyn lles defnyddwyr." Trafodwch. [12]

## ADRAN 2

### Marchnata

**3.** *(a)* Eglurwch sut y gallai siop gadwyn fawr, fel *Marks and Spencer*, ddefnyddio'r *Matrics Ansoff*. [8]

*(b)* Gwerthuswch y farn bod arfau marchnata, fel y Matrics Ansoff, â defnydd cyfyngedig *(of limited use)* yn ymarferol. [12]

**4.** *(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau priodol, y strategaethau prisio sy'n gallu cael eu defnyddio gan fusnes wrth lansio cynnyrch **newydd**. [8]

*(b)* "Pris yw'r elfen **leiaf** pwysig o'r cymysgedd marchnata." Trafodwch. [12]

## ADRAN 3

### Cyfrifydda a Chyllid

**5.** *(a)* Amlinellwch gysyniad cyfraniad ac eglurwch sut y gallai helpu gwneuthurwr dillad i benderfynu p'un ai derbyn archeb ai peidio. [8]

*(b)* Trafodwch y farn nad yw dadansoddiad adennill costau *(break-even analysis)* â fawr ddim defnydd i benderfynwyr mewn busnes ar gyfer y rhan fwyaf o bwrpasau ymarferol. [12]

**6.** *(a)* Amlinellwch y dull *ad-dalu (payback)* o werthuso buddsoddiad **ac** eglurwch ei fanteision a'i anfanteision. [8]

*(b)* Gwerthuswch y farn bod ffactorau ansoddol *(qualitative)* yn bwysicach na ffactorau meintiol *(quantitative)* wrth gyflawni gwerthuso buddsoddiad. [12]

## ADRAN 4

Pobl mewn Cyfundrefnau

**7.** *(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, ddamcaniaeth McGregor o reolaeth a chymhelliant *(motivation)*. [8]

*(b)* "Mewn gwirionedd, nid yw rheolwyr yn cydymffurfio â stereoteipiau McGregor: mae dulliau *(approaches)* gwahanol yn briodol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol." Trafodwch. [12]

**8.** *(a)* Eglurwch y buddion *(benefits)* i gwmni TG o recriwtio'n allanol, yn hytrach nag yn fewnol, wrth benodi rheolwr marchnata newydd. [8]

*(b)* "Pobl yw adnodd pwysicaf busnes ond nid yw pob arddull arwain a weithredir gan reolwyr y DU yn adlewyrchu hyn." Trafodwch. [12]

## ADRAN 5

Rheoli Gweithrediadau

**9.** *(a)* Eglurwch, gyda chymorth diagram, dechneg *dadansoddiad llwybr critigol*. [8]

*(b)* "Yn ymarferol, mae *dadansoddiad llwybr critigol* â defnydd cyfyngedig *(of little use)* i benderfynwyr." Trafodwch. [12]

**10.** *(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, sut y defnyddir technoleg newydd mewn diwydiannau **trydyddol**. [8]

*(b)* "I lawer o fusnesau, mae cyflwyno technoleg newydd yn creu cymaint o broblemau ag y mae'n eu datrys." Trafodwch. [12]